
# PEOPLE'S PLAN FOR THE TEIFI

## CYNLLUN Y BOBL AR GYFER Y TEIFI




Small World Byd Bach

space to create

Save the Teifi · Achubwch y Teifi

West Wales Rivers Trust
Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

Esmée Fairbairn Foundation







Gelwir Afon Teifi yn “Frenhines Afonydd Cymru”. Rhwng y tarddle yn uchel ym Mynyddoedd Cambria yn Llyn Teifi a’r aber islaw Aberteifi, mae’r Afon Teifi yn llifo trwy gefn gwlad Canolbarth Cymru, gan gynnwys tir fferm, gwarchodfeydd natur, a nifer o drefi a phentrefi ar hyd y ffordd.

Gyda hanes ecolegol a diwylliannol cyfoethog, mae 76 milltir y Teifi yn cynrychioli rhan annatod o’n cymunedau fel ffynhonnell bwyd, lle i fasnachu, a lle i bobl a natur gydfodoli.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae’r afon wedi wynebu pwysau cynyddol o lygredd, diraddio cynefinoedd, a newid yn yr hinsawdd. Rydym mewn cyfnod lle mae newid yn hollbwysig os ydym am wrthdroi’r dirywiad hwn cyn ei bod hi’n rhy hwyr.

# Cynllun y Bobl ar gyfer Y Teifi

## Y Broses

Crëwyd Cynllun y Bobl ar gyfer y Teifi fel rhan o brosiect Llais yr Afon, a ariannwyd gan Sefydliad Esmée Fairbairn. Mae prosiect Llais yr Afon yn gydweithrediad rhwng Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Theatr Byd Bach, spacetocreate, ac Achub y Teifi.

Trwy gymysgedd o weithdai ymgysylltu creadigol, hyfforddiant gwyddoniaeth dinasyddion, ac arolygon personol ac ar-lein, mae’r prosiect hwn wedi dal yr uchelgeisiau ar gyfer dyfodol yr afon gan dros 300 o aelodau’r gymuned.


Am fwy o wybodaeth am y prosiect, ewch i: https://westwalesriverstrust.org/peoples-plan-for-the-teifi/



Fel cymunedau'r Teifi, rydym wedi nodi pum thema i grwpio ein gweledigaeth a'n syniadau ar gyfer y dyfodol: mynediad, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, bwyd a ffermio, a diwylliant a threftadaeth.

Wrth gwrs, mae'r themâu hyn yn croestorri ac yn cydblethu â'i gilydd. Felly, mae'n bwysig ystyried pob un ohonynt wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau sy'n ymwneud ag Afon Teifi, oherwydd yn aml bydd cydbwysedd i'w daro rhwng gwahanol themâu a rhanddeiliaid. Nodwyd llawer o'r rhain drwy gydol y prosesau ymgynghori ac maent wedi'u hamlygu yng Nghynllun y Bobl hyn.








Map o ymatebion ar gyfer Cynllun y Bobl ar gyfer Y Teifi. Mae'r rhifau yn dangos nifer yr ymatebion o'r gymuned, gyda dotiau'n nodi un ymateb.

# Mynediad

**Mae'r angen am fynediad gwell i'r afon yn hollbwysig yn y weledigaeth o ddyfodol yr afon. Mae llawer o aelodau'r gymuned yn teimlo mai diffyg mynediad clir i'r afon yw'r rhwystr mwyaf sy'n eu hatal rhag ymgysylltu â'r afon.**





## Argymhellion Cymunedol

1. Sicrhau bod yr holl hawliau tramwy cyhoeddus yn hygyrch ac yn cael eu cadw'n briodol.
2. Dylai pob cynllun ar gyfer yr afon yn y dyfodol (cynllunio, ansawdd dŵr, cefnogaeth tirfeddianwyr ac ati), edrych am gyfleoedd i wella mynediad i'r afon, naill ai fel rhan o'r cynllun neu fel rhan o waith lliniaru. Rhaid gwneud hyn gyda mewnbwn cymunedol i ganfod y dull gorau.
3. Gwneud llwybrau presennol yn fwy hygyrch lle bo modd. Arwyddion gwell ac ychwanegiadau fel meinciau a chanllawiau mewn mannau. Mae llawer o enghreifftiau o arfer da ar hyd yr afon i ddysgu oddi wrthynt, fel llwybrau pren mewn mannau perthnasol.
4. Creu pontydd diogel i gerddwyr a/neu sicrhau diogelwch cerddwyr ar bontydd presennol, gyda'r fantais ychwanegol o leihau dibyniaeth ar geir.
5. Rheoli rhywogaethau ymledol, fel Jac y Neidiwr a Chlymog Japan. Mae'r ddwy rywogaeth hyn yn effeithio ar sefydlogrwydd y glannau ac yn rhwystro llwybrau sy'n golygu na all aelodau'r gymuned gael mynediad i'r mannau hyn mwyach.
6. Cefnogaeth i grwpiau lleol sy'n gweithio i gynyddu mynediad i'r afon trwy hamdden fel grwpiau padlo, cymdeithasau pysgota, a grwpiau cerdded.
7. Tynnu ysbrydoliaeth o Lwybr Dyffryn Teifi sydd newydd ei sefydlu fel dull o weithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau.

Mae'n bwysig bod mynediad yn cael ei ddatblygu mewn ffyrdd nad ydynt yn tanseilio gallu byd natur i ymadfer a ffynnu. Mae hefyd yn hanfodol bod lleoedd ar gael i aelodau grwpiau, megis clybiau chwaraeon, eu mwynhau a'u defnyddio.

# Ansawdd Dŵr

**Mae ansawdd a glendid yr afon ei hun yn bryder mawr yn ein cymunedau gyda charthffosiaeth, dŵr ffo slyri, a sbwriel wedi'u nodi fel y prif bryderon.**

*"Byddwn wrth fy modd yn nofio ynddo lle mae'n hygyrch, ond nid wyf yn ymddiried yn ansawdd y dŵr."*






Cymylau geiriau wedi'u creu o ymatebion cymunedol casglu yn ystod arddangosfeydd cyhoeddus

## Argymhellion Cymunedol

1. Cefnogi grwpiau sy'n cyflwyno mentrau addysg ar fonitro gweledol (lliw, ewyn, rhwystrau ac ati), sydd yn gam cyntaf i lawer o wirfoddolwyr ymgysylltu â gwyddoniaeth dinasyddion.
2. Mwy o fonitro cemegol ar Afon Teifi a'i llednentydd, gan gynnwys cefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion sy'n ceisio creu darlun mwy cyflawn o ansawdd dŵr trwy gydol y flwyddyn.
3. Gwell cyhoeddi o ddata lleol i bawb ei weld a'i ddeall, ar-lein ac yn bersonol. Mae'r olaf yn arbennig o bwysig yn safleoedd poblogaidd i gerddwyr a defnyddwyr eraill.
4. Cefnogaeth ariannol a logistaidd gan gyrff a chwmnïau cyhoeddus, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru/ Welsh Water, i wella ansawdd dŵr trwy atebion technolegol a naturiol, gan weithio gyda chymunedau i benderfynu'r dulliau mwyaf addas ar gyfer pob ardal.
5. Cynyddu ymdrechion i fynd i'r afael â chyfleusterau carthffosiaeth breifat fel tanciau septig.

# Bioamrywiaeth

Rydym wedi gweld dirywiad ecolegol yn yr Afon Teifi dros y degawdau diwethaf. O lai o gynefinoedd glan afon i'r gostyngiad yn nifer yr Eogiaid Iwerydd eiconig, rhaid inni wrthdroi'r llwybr presennol hwn. Yn ffodus, mae pocedi o fioamrywiaeth ar hyd yr afon, sy'n golygu nad ydym yn dechrau o'r dechrau.

*"Gallwn i fynd ymlaen ac ymlaen am y gostyngiad dros y 25 mlynedd rydw i wedi byw yma. Mae'r afon 12 troedfedd o fy nhŷ a dyma'r peth cyntaf a welaf bob dydd."*





## Argymhellion Cymunedol

1. Sefydlu dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol ar gyfer natur ar hyd yr Afon Teifi a'i llednentydd.
2. Adfer a chynyddu cynefin ar gyfer natur tra hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, llifogydd, a mynediad. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethu atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys rheoli llifogydd a chynlluniau draenio trefol cynaliadwy (SDCau).
3. Gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau ar lefel dalgylch i greu coridorau ar hyd yr Afon Teifi i gysylltu'r pocedi o fioamrywiaeth uchel yn well. Mae hyn yn bwysig wrth i Gymru weithio tuag at dargedau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer adfer natur.
4. Cynyddu ymdrechion i reoli rhywogaethau estron goresgynnol fel Jac y Neidiwr a Clymog Japan, sy'n achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth frodorol, yn lleihau mynediad, ac yn ychwanegu at berygl o lifogydd.

# Bwyd a Ffermio


Ffermio yw un o gonglfeini ein cymunedau gwledig ac am flynyddoedd lawer bu'n darparu swyddi a bwyd i'r ardal leol.

*"Byddai'n hyfryd pe gallem, un diwrnod yn y dyfodol, ddal pysgod i'w bwyta o'r afon fel y gwnes i pan oeddwn yn llawer iau. Rwy'n gwybod y gallai hyn fod yn optimistaidd, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth i anelu ato."*



## Argymhellion Cymunedol

1. Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i gyflawni gwaith adfer ar lefel dalgylch ar hyd yr Afon Teifi a'i llednentydd. Bydd hyn hefyd yn rhan o waith Rheoli Llifogydd yn Naturiol y mae'n rhaid ei wneud ar lefel dalgylch i sicrhau'r effaith fwyaf posibl.
2. Cefnogi ffermwyr teuluol a ffermwyr ar raddfa fach a chynhyrchwyr bwyd lleol eraill i drosglwyddo i arferion ffermio sy'n gyfeillgar i natur, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau dŵr ffo slyri i afonydd.
3. Gwthio am amcanion amddiffyn afonydd cryfach mewn polisïau ffermio fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys cefnogi ffermwyr i greu clustogfeydd ar lan yr afon i leihau dŵr ffo ac erydiad.
4. Cefnogi systemau a marchnadoedd bwyd lleol i fyrhau cadwyni cyflenwi.
5. Sicrhau bod mesurau gorfodi cryf, sy'n cymell mynd i'r afael â'r mater, ar waith fel y dewis olaf ar gyfer ad-droseddwyr.



# Diwylliant a Threftadaeth

Ar un adeg roedd yr Afon Teifi yn rhan ganolog o'n cymunedau. Gan gyflwyno rhwystr a chyfle, ni allwch siarad am y cymunedau hyn heb sôn am effaith yr afon. O ddyddiau Ystrad Fflur i'w defnydd mewn amaethyddiaeth ac i'r cwryglau a pysgota eogiaid Cenarth a'i rhannau isaf, mae afon Teifi wedi llunio cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol.

Er efallai na fyddwn byth yn ymgysylltu â'r afon yn yr un ffordd â chenedlaethau'r gorffennol, gallwn ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod yr afon yn parhau i fod yng nghanol ein cymunedau.











## Argymhellion Cymunedol

1. Cefnogi gwaith ar draws cymunedau i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu am yr afon. Gall hyn gynnwys digwyddiadau cymunedol a gynhelir gan gyrff cyhoeddus, preifat, neu anllywodraethol; prosiectau mewn ysgolion; neu gymorth i ddiwydiannau lleol.

2. Cefnogi grwpiau hamdden fel cymdeithasau pysgota, grwpiau padlo, a chymdeithasau cerdded i gyflwyno sesiynau ar gyfer eu haelodau a'r gymuned ehangach.

3. Sicrhau bod pob datblygiad yn ceisio cadw a gwella tirwedd ddiwylliannol a daearyddol cymunedau ar hyd yr Afon Teifi. Mae'n hanfodol bod pob datblygwr, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yn gweithio gyda chymunedau i gyflawni prosiectau yn y meysydd hyn.




Cymylau geiriau wedi'u creu o ymatebion cymunedol casglu yn ystod arddangosfeydd cyhoeddus.